

Eisteddfod yr Urdd – 2018

Cystadleuaeth Defod y Fedal Ddrama Bl.10 a dan 25oed (415)

BEIRNIADAETH LUNED AARON AC ALED JONES WILLIAMS

Paid â Dweud Dim gan LLEUCU LLWYD

Drama am berthynas dau gariad sydd â natur dra gwahanol i'w gilydd sydd yn Paid â Dweud Dim gan LLEUCU LLWYD. Cymeriad arall yn y ddrama yw Mam Dylan, ac wrth i'r ddrama fynd rhagddi, down i ddeall ei bod hi'n fregus yn feddyliol yn dilyn trasiedi pan aeth ei merch ar goll flynyddoedd yn ôl. Mae'r sefyllfa'n un addawol, gyda Dylan yn teimlo euogrwydd yn sgil colli ei chwaer fach ar draeth pan fu'n blentyn. Ceir yma ddeialog digon rhywiog a naturiol, a difyr yw'r awgrym o osod negeseuon testun y cariadon ar wal y llwyfan. Mae yma ddefnydd gwreiddiol o drosiadu, a chyffyrddiadau effeithiol mewn monolog gan Cadno, er enghraifft, pan fo'n sôn am ei hoffter o gasglu cyfrinachau – 'Dwi fel môr leidr yn hel trysor.' Er y cryfderau, mae peryg i'r defnydd o fonologau esbonio gormod am y gorffennol yn hytrach na dangos mwy o ddigwydd yn y presennol. Mae lle yn sicr i ddatblygu cymeriadau mam Dylan a Cadno, ac mae'n drueni fod popeth yn dod i fwcl mewn modd mor ddisymwth. O ysgrifennu'n fwy pwyllog, byddai yma ddrama fwy cyflawn, ond llongyfarchiadau i LLEUCU LLWYD am gyffyrddiadau dramatig digon effeithiol.